

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

### CLA610 - Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) (Rhif 2) 2015

#### Gweithdrefn

---

Negyddol

#### Cefndir

---

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Annibynnol Cenedlaethol Bwrdd Diogelu (Cymru) 2015 (y Rheoliadau gwreiddiol).

Mae'r Rheoliadau gwreiddiol yn nodi'r trefniadau ar gyfer penodiadau i, a thrafodion, y Bwrdd Diogelu Cenedlaethol.

#### Craffu Technegol

---

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

#### Craffu ar rinweddau

---

*Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:*

1. Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud er mwyn cywiro gwall gweinyddol. O ganlyniad i Orchymyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 2) 2015, sy'n enwi'r diwrnod penodedig i gychwyn adrannau 132 a 133 o'r Ddeddf fel 21 Hydref 2015, cafodd Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) 2015 nid yn unig yn gwneud, ond daethant i rym cyn y pwerau perthnasol yn y Ddeddf.
2. Er y gellir ystyried bod adran 13 o Ddeddf Dehongli 1978, ynghylch arfer pwerau'n rhagflaenorol, yn darparu sail gyfreithiol ddigonol, ystyrir ei bod yn ddoeth i osod y mater y tu hwnt i amheuaeth drwy ddirymu ac ail-wneud y rheoliadau gyda dyddiad dod i rym ar ôl diwrnod dwyn i rym penodedig y pŵer galluogi yn y Ddeddf.

#### Cynghorwyr Cyfreithiol

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**  
**05 Tachwedd 2015**

